Profion Rhifedd Cenedlaethol

# RHESYMU

# 2CRh14

# Marcio'r prawf

## a deall perfformiad

117629

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Marcio'r prawf rhesymu

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys:

- y cynllun marcio ar gyfer y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) ar gyfer Blwyddyn 2 ynghyd â chanllawiau marcio
- gwybodaeth ychwanegol i helpu athrawon i ddeall atebion eu dysgwyr, gan ddarparu llwyfan ar gyfer twf.

Mae gofyn i ddysgwyr ddefnyddio rhesymu rhifiadol ym mhob un o eitemau'r prawf hwn ac felly mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau'n agored, gan adael i'r dysgwyr ddewis strategaeth sy'n briodol yn eu barn nhw. Mae hyn yn golygu y gall fod sawl ffordd o'u datrys.

O ganlyniad, efallai na fydd marcio'r profion rhesymu mor syml â gwirio a yw'r ateb terfynol yn gywir, oherwydd mae'r dulliau sy'n cael eu defnyddio yn bwysig hefyd.

## Deall y cynllun marcio

Er mwyn sicrhau bod y cynllun marcio'n ddefnyddiol, mae'n canolbwyntio'n bennaf ar arwyddion allweddol sy'n dangos bod y dysgwr yn deall. Er enghraifft, efallai y bydd y cynllun marcio'n dweud 'Yn dangos y gwerth **12**' neu 'Yn dangos y cysylltiad rhwng **36** a **9**'.

Fel rheol, rhoddir rhywfaint o farciau am y camau canolraddol hyn, sy'n dangos dealltwriaeth rannol.

Ochr yn ochr â hyn, rhoddir sylwebaeth fel sy'n briodol, er mwyn galluogi marcwyr ac athrawon i ddeall atebion eu dysgwyr a hefyd i'w helpu i farcio.

Yn ogystal â hynny, tynnir sylw at wallau cyffredin, ac esbonnir hefyd pam y rhoddir rhywfaint o farciau ar gyfer rhai mathau o atebion.

## Enghreifftiau

Er mwyn helpu ysgolion gyda'u marcio ond hefyd er mwyn eu helpu i ddehongli atebion eu dysgwyr, rhoddir nifer o enghreifftiau ar gyfer pob eitem, fel y bo'n briodol.

Atebion go iawn gan ddysgwyr yw'r enghreifftiau hyn (sy'n deillio o dreialu'r profion rhesymu) ac felly maen nhw'n cynnwys camsillafu a gwallau rhifiadol. Fel nad oes modd adnabod y dysgwyr hyn, mae'r atebion wedi cael eu teipio.

## Asesu ac adeiladu ar berfformiad yn y prawf

Wrth farcio'r prawf, bydd athrawon yn cael sgôr gyfan ar gyfer pob dysgwr.

Fodd bynnag, nid yw'r sgôr hon ynddi'i hun yn debygol o roi llawer iawn o wybodaeth am gryfderau dysgwyr unigol, na thystiolaeth o'r meysydd dealltwriaeth rifiadol a'r sgiliau rhesymu hynny y mae angen eu gwella.

Yn yr un modd, gall cymharu sgorau dysgwyr guddio gwahaniaethau sylweddol yn eu perfformiad. Er enghraifft, efallai y bydd dau ddysgwr yn cael sgôr o 12. Fodd bynnag, o fewn y sgôr gyfan honno, efallai y bydd Dysgwr A yn dangos gallu clir i gyfathrebu'n effeithiol ond y bydd angen cymorth arno i adolygu ei waith. Ar y llaw arall, efallai y bydd Dysgwr B yn dangos y gwrthwyneb.

Dyma pam mae'r cynllun marcio a'r deunyddiau sy'n cyd-fynd ag ef wedi'u paratoi i helpu athrawon i asesu perfformiad unigolion a'r dosbarth yn fanylach.

## Adnodd diagnostig

Er mwyn helpu i ddehongli perfformiad yn y prawf ac adeiladu ar hynny, darperir adnodd diagnostig.

Mae hwn ar gael yn dysgu.cymru.gov.uk

Ar ei lefel symlaf, mae'r adnodd diagnostig yn galluogi marcwyr i wirio cyfanswm sgôr y dysgwr penodol hwnnw.

Fodd bynnag, wrth gwblhau'r set gyflawn o ddata ar gyfer pob dysgwr, bydd athrawon yn gallu cael trosolwg ar berfformiad y dosbarth, gan weld cryfderau grŵp neu unigolion a pha feysydd sy'n broblem, a gweld beth yw'r anghenion addysgu eraill.

## Adeiladu ar y prawf: gweithgareddau dosbarth

Ar ôl asesu gallu dysgwyr i ddefnyddio rhesymu rhifiadol a gweld ym mha feysydd y mae angen datblygu unigolion a'r dosbarth, efallai y bydd athrawon wedyn yn awyddus i adeiladu ar brofiad a deunyddiau'r prawf drwy fynd i dysgu.cymru.gov.uk

Ar y wefan hon, ceir eitemau'r profion a'r cynlluniau marcio cysylltiedig, ond mae yno hefyd ddeunyddiau ychwanegol ag awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig yn y dosbarth i ymestyn y dysgu.

Yn ogystal, mae rhagor o weithgareddau i gefnogi addysgu a dysgu rhesymu rhifiadol ar gael yn dysgu.cymru.gov.uk

## Cynllun marcio

### *Rheolau marcio cyffredinol*

Mae'n hanfodol eich bod yn defnyddio'r cynllun marcio hwn, y canllawiau marcio a'r rheolau marcio cyffredinol isod pan fyddwch yn marcio, er mwyn i'r sgorau safonedig fod yn ddilys.

- Dylech roi'r canllawiau marcio sydd yn y cynllun marcio ar waith er mwyn gweld beth yw'r sgôr berthnasol ar gyfer pob cwestiwn. Ni roddir hanner marciau.
- Ar ddiwedd pob tudalen ddwbl o farcio, cofnodwch gyfanswm y marciau yn y blwch 'cyfanswm' yn y gornel dde isaf. Gwiriwch nad yw'r marc a gofnodir yn fwy na chyfanswm y marciau sydd ar gael.
- Pan fydd y marcio wedi cael ei gwblhau, dylech adio cyfanswm y marciau a ddyfarnwyd. Dyma gyfanswm y sgôr a dylid ei gofnodi ar glawr y llyfryn prawf a'i roi ar y daflen farcio berthnasol ar system gwybodaeth reoli yr ysgol, ynghyd â manylion a dyddiad y prawf a safwyd.
- At ddibenion rheoli ansawdd, awgrymir y dylai marcwyr nodi llythrennau blaen eu henw ar glawr y llyfryn prawf.

Yna, dylid cyflwyno'r data hyn fel rhan o'r drefn Casglu Data Cenedlaethol. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2014* ar wefan Dysgu Cymru ac yn *Casglu Data Cenedlaethol a threfniadau adrodd 2013/14* sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Canllawiau marcio

Mae'n bwysig bod y profion yn cael eu marcio'n gywir  Mae'r cwestiynau a'r atebion isod yn eich helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o sut i farcio'n deg ac yn gyson.

### *Oes rhaid i'r dysgwyr ddefnyddio'r blychau ateb?*

Ar yr amod nad oes amwysedd, gall y dysgwyr roi eu hateb unrhyw le ar y dudalen. Os oes mwy nag un ateb, rhaid marcio'r un sydd yn y blwch ateb, hyd yn oed os yw'n anghywir. Fodd bynnag, os yw'n amlwg bod ateb anghywir yn deillio o wall trawsgrifio (e.e. bod 65 wedi cael ei gopïo fel 56), marciwch yr ateb sydd yn y gwaith cyfrifo.

### *Oes ots os bydd y dysgwr yn ysgrifennu'r ateb yn wahanol i'r hyn a ddangosir yn y cynllun marcio?*

Dylai atebion sy'n cyfateb o ran rhifau (e.e. wyth ar gyfer 8, neu ddau chwarter neu 0.5 ar gyfer hanner) gael eu marcio fel atebion cywir oni fydd y cynllun marcio'n nodi'n wahanol.

### *Sut y dylwn i farcio atebion sy'n ymwneud ag arian?*

Gellir dangos arian mewn punnoedd neu geiniogau, ond os bydd sero ar goll, e.e. £4.7, dylid marcio'r ateb yn anghywir, oni fydd y cynllun marcio'n nodi'n wahanol.

### *Sut y dylwn i farcio atebion sy'n ymwneud ag amser?*

Yn y byd go iawn, dangosir amseroedd mewn nifer o wahanol ffyrdd felly dylech dderbyn, er enghraifft, 02:30, 2.30, hanner awr wedi 2, ac ati. Peidiwch â derbyn 2.3 gan fod hyn yn amwys. Dylid defnyddio'r un egwyddor ar gyfer marcio cyfnodau o amser, e.e. ar gyfer dwy awr a hanner dylech dderbyn 2.5 ond nid 2.5pm.

### *Beth os bydd y dull yn anghywir ond yr ateb yn gywir?*

Oni fydd y cynllun marcio'n nodi'n wahanol, dylid marcio atebion cywir fel rhai cywir hyd yn oed os bydd y gwaith cyfrifo yn anghywir oherwydd efallai y bydd dysgwyr wedi dechrau eto heb ddangos y dull newydd a ddefnyddiwyd ganddynt.

### *Beth os bydd y dysgwr wedi dangos dealltwriaeth ond wedi camddarllen yr wybodaeth sydd yn y cwestiwn?*

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn dewis yr wybodaeth briodol ac yn adolygu eu gwaith. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o gwestiynau, mae'n bosibl ennill marciau o hyd am y dull a ddefnyddiwyd.

### *Beth y dylwn i ei wneud am waith sydd wedi'i groesi allan?*

Gallwch farcio gwaith cyfrifo sydd wedi'i groesi allan sydd heb gael ei ddisodli gan waith cyfrifo arall os oes modd ei ddarllen.

### *Beth yw'r gwahaniaeth rhwng gwall rhifiadol a gwall cysyniadol?*

Gwall rhifiadol yw un lle y ceir llithriad, e.e. gydag 86 x 67 os bydd y dysgwr yn cyfrifo 6 x 7 = 54 o fewn ateb sy'n gywir fel arall. Gwall cysyniadol yw camddealltwriaeth mwy difrifol lle nad oes unrhyw farciau ar gael am y dull, er enghraifft os caiff 86 x 60 ei gofnodi fel 516 yn hytrach na 5160

### *Beth os bydd y dysgwyr yn dewis defnyddio dull nad yw'n cael ei ddangos yn y cynllun marcio?*

Mae'r cynllun marcio'n dangos y dulliau mwyaf cyffredin. Fodd bynnag, gellir defnyddio ystod eang o ddulliau i ateb cwestiwn ac mae unrhyw ddull cywir, pa mor idiosyncratig bynnag, yn dderbyniol.

Ym mhob cwestiwn, dylid rhoi marciau llawn am yr ateb cywir, pa ddull bynnag a ddefnyddiwyd, oni fydd y cynllun marcio'n nodi'n wahanol.

Mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau'n rhoi rhywfaint o farciau am atebion sy'n dangos dull cywir ond bod yr ateb yn anghywir neu'n anghyflawn: dull cywir yw dull a fyddai'n arwain at ateb cywir pe na bai gwallau rhifiadol.

## 2CRh14 Prawf rhesymu: Cynllun marcio (Glybiaid a Ffangiaid)

| C | Marciau | Ateb |
|---|---|---|
| 1 | 3m | Yn rhoi pob un o'r tri ateb cywir isod, mewn unrhyw drefn:<br>**4** Glyb a **0** Ffang<br>**2** Glyb ac **1** Ffang<br>**0** Glyb a **2** Ffang |
| | Neu 2m | Yn rhoi unrhyw **ddau** o'r atebion cywir |
| | Neu 1m | Yn rhoi unrhyw **un** o'r atebion cywir |

**Derbyniwch unrhyw ateb lle bydd y 0 wedi'i adael yn wag**

| C | Marciau | Ateb |
|---|---|---|
| 2 | 3m | **3** Glyb a **2** Ffang |
| | Neu 2m | Yn rhoi unrhyw un o'r atebion canlynol:<br>**5** Glyb ac **1** Ffang<br>**1** Glyb a **3** Ffang<br>Neu<br>Yn dangos un neu fwy o'r canlynol:<br>**4** Glyb ac **1** Ffang, â'r gwerth **12**<br>**2** Glyb a **3** Ffang, â'r gwerth **16**<br>**1** Glyb a **4** Ffang, â'r gwerth **18** |
| | Neu 1m | Yn rhoi'r ateb<br>**7** Glyb a **0** Ffang<br>Neu<br>Yn dangos un o'r canlynol neu'r ddau ohonynt:<br>**5** Glyb a **0** Ffang, â'r gwerth **10**<br>**0** Glyb a **5** Ffang, â'r gwerth **20** |

Gwall cyffredin

**Grwpiau'n cynnwys Glybiaid a Ffangiaid sydd ag 14 o goesau**

**Grwpiau'n cynnwys pump Glyb a Ffangiaid, â chyfanswm nifer eu coesau**

**Grŵp o Glybiaid sydd ag 14 o goesau**

**Grwpiau'n cynnwys pump Glyb neu bump Ffang, â chyfanswm nifer eu coesau**

## Cwestiwn 1: Enghreifftiau

| Ateb y dysgwr | Sylw |
|---|---|
| 2 Glyb a 1 Ffang<br>neu<br>4 Glyb a [ ] Ffang<br>neu<br>[ ] Glyb a 2 Ffang | Pob un o'r tri yn gywir; **3 marc**<br>• Mae'r blychau gwag yn awgrymu 0 ac felly maen nhw'n dderbyniol. |
| 2 Glyb a 1 Ffang<br>neu<br>4 Glyb a 2 Ffang<br>neu<br>2 Glyb a 1 Ffang | Un yn gywir; **1 marc**<br>• 2 Glyb ac 1 Ffang yn cael ei ailadrodd.<br>Gwall cyffredin: Efallai fod 4 Glyb a 2 Ffang yn cynrychioli dau ateb gwahanol (4, 0 a 0, 2) sy'n cael eu dangos ar un llinell. Fodd bynnag, mae'n anghywir ac felly ni ellir rhoi marc. |

## Cwestiwn 2: Enghreifftiau

ffangiaid glybiaid ffangiaid glybiaid
||| | | ||||

glybiaid 1 neu 3 neu 5 ffangiaid 3 neu 1 neu 2

3 Glyb a 2 Ffang


Cywir; **3 marc**

- Mae'r dysgwr hwn yn dangos dealltwriaeth rifiadol drwy ystyried gwahanol opsiynau ac wedyn mae'n dewis yr ateb cywir.




1 Glyb a 3 Ffang; **2 farc**

Gwall cyffredin: Mae'r ateb hwn yn defnyddio'r coesau i gyd ond gyda phedwar anghenfil ac nid pump.




7 Glyb a 0 Ffang; **1 marc**

Gwall cyffredin: Mae'r ateb hwn yn defnyddio'r coesau i gyd hefyd ond gyda saith anghenfil yn lle pump, a chan ddefnyddio Glybiaid yn unig.

Mi wnes i eu cyfri nhw i gyd yn gyntaf ~~...~~ ac roeddwn i'n meddwl y byddai'r 2 goes yn glybiaid a'r setiau o 4 yn ffangiaid

2 Glyb a 3 Ffang

Anghywir; **0 marc**

- Efallai fod yr ateb 2 Glyb a 3 Ffang (yn hytrach na 3 Glyb a 2 Ffang) yn awgrymu bod y dysgwr wedi trawsodod yr atebion. Fodd bynnag, gan nad yw wedi dangos dim gwaith bras, nid oes modd bod yn siŵr, ac felly ni ellir rhoi marc.

| C | Marciau | Ateb |
|---|---|---|
| 3i | 1m | **15** |

| | | |
|---|---|---|
| 3ii | 1m | **4** |

| | | |
|---|---|---|
| 3iii | 2m | Yn gwneud **datganiad cywir a pherthnasol** sy'n dangos y cysylltiad â **thabl 5** (derbyniwch gyfrif fesul pump hyd at 30 neu 35, neu ragor, fel cyfeiriad at dabl 5), e.e.<br>• Dydy 34 ddim yn nhabl 5<br>• Rhaid iddo orffen mewn 5 neu 0<br>• $6 \times 5 = 30$ felly mae 4 o anifeiliaid dros ben<br>• Os ydych chi'n dal i adio 5, rydych chi'n cael 35 nid 34<br>• 20, 25, 30, 35 felly dylai fod yn 35 |
| | Neu 1m | Yn gwneud **datganiad cywir a pherthnasol** ond nid yw'n dangos y cysylltiad â thabl 5, e.e.<br>• Byddai 4 dros ben<br>• Mae angen anifail anwes arall arno<br>Neu<br>Yn datgan neu'n awgrymu y dylai nifer y Ffangiaid fod yn 35 (derbyniwch 30) ond nid yw'n esbonio pam<br>Neu<br>Yn dangos y cysylltiad â **thabl 5**, hyd yn oed drwy awgrym yn unig (derbyniwch gyfrif fesul pump hyd 30 neu 35, neu ragor, fel cyfeiriad at dabl 5), e.e.<br>• Rhaid iddo orffen gyda 5<br>• Dydy e ddim yn gorffen gyda 0<br>• 20, 25, 30, 35 |

**Cwestiwn 3iii: Enghreifftiau**

| | |
|---|---|
| Oherwydd dydy 34 ddim yn nhabel 5 oherwydd 5 anifail anwes | Cywir; **2 farc** |
| 卌 卌 卌 卌<br>卌 卌 卌<br>os oedd 34 o anifeliaid anwes gyda'i gilydd mae gan un ffang 4 anifel anwes | Cywir; **2 farc**<br>• Mae'r siart cyfrif yn dangos cysylltiad clir â thabl 5, ac mae'r datganiad bod 'gan un ffang 4 anifel anwes' yn ddatganiad cywir a pherthnasol. |
| oherwydd dod e ddim yn gwbod sut i gyfri mewn 5 ac mae e'r ateb yn anghywir mae'n 35 anifail anwes | Cywir; **2 farc**<br>• Mae 'cyfri mewn 5' yn dangos y cysylltiad â thabl 5 ac mae'r datganiad 'mae'n 35 anifail anwes' yn ddatganiad cywir a pherthnasol sy'n tybio mai'r 5 agosaf yw'r cyfanswm cywir. |
| Oherwydd ynlle pedwar mae angen iddo fod yn bump | Yn awgrymu 35; **1 marc**<br>• Nid yw'r dysgwr hwn yn esbonio pam y dylai fod yn 35 yn hytrach na 34 |
| mae wedi cyfri gormodd<br>卌 卌 卌 卌 ~~卌~~ ~~卌~~ ~~卌~~ | Cyfrif fesul pump; **1 marc**<br>• Mae'r siart cyfrif yn amlwg yn dangos cysylltiad â thabl 5 ond nid yw dweud ei fod wedi cyfrif gormod yn ddigon heb gyfeirio at 30 neu 35 |
| does dim digon o anifaelied | Anghyflawn; **0 marc** |
| achos roedd gan bob Ffang 5 anifael | Anghyflawn; **0 marc**<br>Gwall cyffredin: Mae ailddatgan gwybodaeth sydd yn y cwestiwn yn wall cyffredin. |
| chi'n adio'r 15 a'r 5 a chi'n cael 20 | Anghyflawn; **0 marc** |

## 2CRh14 Prawf rhesymu: Cynllun marcio (Eirth)

| C | Marciau | Ateb |
|---|---|---|
| 1i | 2m | **Siwmper las** |
| | Neu 1m | Yn dangos y cysylltiad rhwng safle 14 a'r siwmper binc (derbyniwch unrhyw awgrym diamwys) |

**Derbyniwch unrhyw awgrym diamwys, e.e.**
- **Crys-T mawr**
- **Glas**

| C | Marciau | Ateb |
|---|---|---|
| 1ii | 2m | **63** o begiau |
| | Neu 1m | Yn rhoi'r ateb **42** neu'n dangos **42** yn y gwaith bras<br><br>Neu<br><br>Yn rhoi'r ateb **62** neu **64**<br><br>Neu<br><br>Yn dangos dull a fyddai'n arwain at 63 pe bai'r gwaith cyfrifo'n gywir, e.e.<br>• 21 + 21 = 32 (gwall), + 21 = 52 (gwall) |

Gwall cyffredin
**1 peg ar gyfer pob eitem, neu 2 × 21**

Gwall cyffredin
**Gwall tebygol wrth gyfrifo 21 + 21 + 21**

| C | Marciau | Ateb |
|---|---|---|
| 2 | 1m | **14** oed |

| C | Marciau | Ateb |
|---|---|---|
| 3 | 2m | **30**cm |
| | Neu 1m | Yn dangos dull a fyddai'n arwain at 30 pe bai'r gwaith cyfrifo'n gywir, e.e.<br>• 100 – 70<br>• 20 + 50 = 80 (gwall), ateb 20 (yn awgrymu tynnu o 100)<br>• 100 – 20 = 70 (gwall), 70 – 50 |

**Cwestiwn 1ii: Enghreifftiau**

> 21 + 21 = 42 + 21 = 63
>
> [ ] o begiau

Cywir; **2 farc**

- Mae'r ateb 63 yn cael ei ddangos yn glir yn y gwaith bras.

---

> 21+41=62
>
> 62 o begiau

Ateb 62; **1 marc**

Gwall cyffredin: Mae'r dysgwr hwn yn dangos dealltwriaeth ond wedi gwneud gwall wrth gyfrifo 21 + 21

---

> ||||||||||||||||||||||||||||| <br> |||||||||||||
>
> 41 o begiau

Anghywir; **0 marc**

- Mae'r dysgwr hwn wedi colli'r trywydd wrth gyfrif. Byddai cyfrif fesul pump gan ddefnyddio tabl cyfrif yn strategaeth ddefnyddiol.

**Cwestiwn 2: Enghreifftiau**

> Faint yw oed yr arth **fawr**? 11 oed

Anghywir; **0 marc**

Gwall cyffredin: Mae 11 yn deillio o 7 + 4, h.y. mae wedi anwybyddu oedran yr arth fach.

---

> Faint yw oed yr arth **fawr**? 4 oed

Anghywir; **0 marc**

Gwall cyffredin: Mae'r dysgwr hwn wedi anwybyddu 'hŷn' ac wedi rhoi'r gwerth a ddangosir wrth ymyl yr arth fawr.

**Cwestiwn 3: Enghreifftiau**

> 20 + 30 = 50 <br> 50 + 50 = 100
>
> 50 cm

Dull cywir; **1 marc**

- Mae'r gwerth cywir yn cael ei ddangos ond mae'r dysgwr wedyn wedi dewis y gwerth anghywir ar gyfer yr ateb.

---

> 40 cm

Anghywir; **0 marc**


Gwall cyffredin: Mae cael yr ateb 40 wrth gyfrif ymlaen o 70 i 100 yn wall cyffredin, ond mae'n wall cyffredin hefyd cael yr ateb 40 drwy amcangyfrif. Gan na ddangoswyd unrhyw ddull, ni ellir rhoi marc.

---

> Wnes i ddefnyddio pren mesur a mesur mewn cm
>
> 4·5 cm

Anghywir; **0 marc**



Gwall cyffredin: Mae anwybyddu'r wybodaeth yn y cwestiwn a mesur yn lle hynny yn wall cyffredin arall.

| C | Marciau | Ateb |
|---|---|---|
| 4 | 3m | **Na**, gydag **12** ac **13** i'w gweld<br><br>Neu<br><br>**Na**, gydag **12** ac **angen 1 chwarter arall** (neu ddatganiad cyfatebol)<br><br>Neu<br><br>**Na**, gydag **13** ac **1 chwarter yn brin** (neu ddatganiad cyfatebol) |
| | Neu 2m | **Na**, gydag **12** i'w weld<br><br>Neu<br><br>**Na**, gydag **angen 1 chwarter arall** (neu ddatganiad cyfatebol)<br><br>Neu<br><br>**Na**, gydag **1 chwarter yn brin** (neu ddatganiad cyfatebol) |
| | Neu 1m | **12** i'w weld neu wedi'i awgrymu, ond nid ar sail gwaith cyfrifo anghywir, e.e.<br><br>• <br><br>Neu<br><br>**13** i'w weld |

**Derbyniwch fod 'Na' yn cael ei awgrymu drwyddo draw ar yr amod bod y penderfyniad cywir wedi'i wneud**

**Rhaid dangos yn glir bod gan bob un o'r tair cacen 4 darn yr un, hyd yn oed os nad yw'r darnau'n gyfartal o ran maint**

**Cwestiwn 4: Enghreifftiau**

| | |
|---|---|
| 4 x 3 = 12<br>1 + 5 + 7 = 13<br>Dydyn nhw ddim yn gallu cael ei darnau i gyd achos dim ond 12 chwarter sydd ac maen nhw eisiau 13 | Cywir; **3 marc**<br>• Mae'r ymateb hwn wedi'i gyfleu'n glir iawn. |
| Achos mae 'na 12 ac mae'r arth fawr eisiau 7 chwarter a'r arth ganolig eisiau 5 a 5 + 7 = 12 felly dydy'r arth fach ddim yn gallu cael beth mae ei eisiau | Cywir; **3 marc**<br>• Mae 'Na' yn cael ei awgrymu'n glir, a hefyd bod angen 1 chwarter arall. |
| <br>12<br>1 = 5 = 6 + = 13 Na | Cywir: **3 marc**<br>• Mae'r ymateb hwn yn dangos 13, 12 (wrth ymyl y cacennau) a 'Na', felly mae'n cael pob un o'r tri marc. Fodd bynnag, byddai o fudd trafod â'r dysgwr hwn ar ôl y prawf sut y gallai wella'i gyfathrebu rhifiadol. |
| Na Dim ond 6 chwarter o'r gac y gall yr Arth Fawr eu cael | 'Na', ac mae angen 1 chwarter arall; **2 farc**<br>• I gael y marciau llawn, byddai angen i'r dysgwr hwn esbonio sut mae'n gwybod bod angen chwarter arall ar yr arth fawr. |
| <br>na | Yn awgrymu 12; **1 marc**<br>• Mae'n amlwg bod bwriad i dorri pob cacen yn bedwar darn. Pe bai'r dysgwr hwn wedi dangos y gwerth 12, byddai'r ymateb hwn wedi ennill dau farc gan ei fod hefyd wedi rhoi 'Na'. |
| Na. Oherwydd os chi'n adio nhw i gyd gyda'i gilydd, mae'n ormodd<br>~~1+5~~ 1ch + 5ch = 6ch<br>6ch + 7ch = 13ch | 13 i'w weld: **1 marc**<br>• Nid oes tystiolaeth i ddangos sut mae'r dysgwr hwn yn gwybod ei fod yn 'ormodd'. |
|  | Anghywir; **0 marc**<br>Gwall cyffredin: Mae angen cymorth ar y dysgwr hwn i ddeall y cysyniad chwarteri. |

© Hawlfraint y Goron 2014